# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 12 Tachwedd 2024

Amser: 09.01 - 09.21

# Cyfarfod o bell/Preifat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | David Rees AS (Cadeirydd)<br>Elin Jones AS, Llywydd<br>Heledd Fychan AS<br>Jane Hutt AS<br>Darren Millar AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Yan Thomas (Dirprwy Glerc) |
| Eraill yn bresennol | Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gweithdrefnau a Sgiliau Seneddol<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Cafodd y cyfarfod ei gadeirio gan y Dirprwy Lywydd, a chroesawodd yr Aelodau i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Jane Dodds.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newidiadau a ganlyn

- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth: Cofio *Tynnwyd yn Ôl*
- Cynnig i atal Rheolau Sefydlog dros dro (5 munud)
- Dadl: Cofio (60 munud)

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.20pm

**Dydd Mercher**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.10pm

## 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newidiadau canlynol i amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mawrth 26 Tachwedd 2024**

- Datganiad gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Cynnydd ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy - dylunio drwy gydweithio (45 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio: Diweddariad ar Fuddsoddiadau Lled-ddargludyddion Cyfansawdd (45 munud)
- ~~Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Fêps Defnydd Sengl) (Cymru) 2024 (5 munud)~~ – *gohiriwyd tan 10 Rhagfyr*
- Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Diwygiadau Amrywiol etc.) (Cymru) 2024 (15 munud)

Gofynnodd Heledd Fychan am ddatganiad llafar ar yr 'Her 50 diwrnod newydd i wella cyfraddau rhyddhau cleifion o ysbytai a gwella gofal cymunedol' a gyhoeddwyd ar 11 Tachwedd. Dywedodd y Trefnydd y byddai'n ystyried y cais.

## 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunwyd ar y newidiadau a ganlyn i amserlen Busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mercher 20 Tachwedd 2024 -**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Adolygiad o weithrediadau, prosesau ac ymchwiliadau a gynhaliwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (30 munud)

**Dydd Mercher 4 Rhagfyr 2024**

- Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol: Eu Dyfodol: **Ein Blaenoriaeth?** Ymchwiliad dilynol i ddarpariaeth gofal plant yng Nghymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer: Janet Finch-Saunders (Aberconwy) (30 munud)

## 3.4 Cynigion Deddfwriaethol Aelodau: Dewis Cynnig ar gyfer Dadl

Trafododd y Pwyllgor Busnes y cynigion arfaethedig ar gyfer dadl a chytunwyd i amserlennu:

**20 Tachwedd 2024**

**Siân Gwenllian**

**NNDM8712**

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi cynnig ar gyfer Bil ar ymgorffori'r Hawl i Dai Digonol, fel y nodir yn y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol (ICESCR), yng nghyfraith Cymru.

2. Yn nodi mai diben y Bil fyddai:

a) sefydlu'r Hawl i Dai Digonol fel hawl sylfaenol yng nghyfraith Cymru, gan sicrhau mynediad i dai saff, diogel a fforddiadwy i bawb;

b) gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru ac awdurdodau cyhoeddus i wireddu'n raddol yr Hawl i Dai Digonol;

c) gofyn am asesiadau rheolaidd o anghenion ac amodau tai, gyda thargedau wedi'u gosod i leihau'r anghenion tai sydd heb eu diwallu a gwella amodau dros amser;

d) cryfhau amddiffyniadau tenantiaid a chefnogi arferion rhentu teg i sicrhau sefydlogrwydd tai; ac

e) sefydlu mecanweithiau i unigolion geisio iawn os yw eu hawl i dai digonol yn cael ei dorri neu heb ei fodloni.

**8 Ionawr 2025**

**Carolyn Thomas**

**NNDM8723**

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi cynnig ar gyfer Bil cipio anifeiliaid anwes.

2. Yn nodi mai diben y Bil fyddai:

a) gwneud cipio anifail anwes yn drosedd benodol yng Nghymru;

b) cydnabod nad gwrthrychau difywyd yw cathod a chŵn ond bodau ymdeimladol sy'n gallu profi trallod a thrawma emosiynol arall;

c) cydnabod y trallod sylweddol ac unigryw a achosir i berchennog pan gaiff anifail anwes ei ddwyn; a

d) dod â deddfwriaeth Cymru yn gyfartal â deddfwriaeth yn Lloegr.

**Deddfwriaeth**

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Ymateb gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ynglŷn ag amserlen y Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestru ac Ardoll) Etc. (Cymru).

Trafododd y Pwyllgor Busnes ymateb gan y Pwyllgor Cyllid a chytunodd ar yr amserlen arfaethedig ar gyfer craffu ar y Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestru ac Ardoll) Etc. (Cymru).

### 4.2 Diweddariad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfeirio'r Memorandwm atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Dŵr (Mesurau Arbennig) at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i graffu arno, gyda dyddiad terfynol o 10 Ionawr 2025 i gyflwyno adroddiad.

## 5 Pwyllgorau

### 5.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ynghylch ymweliad y pwyllgor â Brwsel.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar y cais i Aelodau'r Pwyllgor ymadael ar unwaith yn dilyn Cwestiynau i'r Prif Weinidog ddydd Mawrth 19 Tachwedd.

### 5.2 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn gwneud cais i gwrdd y tu allan i'w slot cyfarfod arferol

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i geisiadau gan y Pwyllgor iddo gwrdd y tu allan i'w slot cyfarfod rheolaidd ar foreau dydd Mawrth 3 Rhagfyr a dydd Llun 9 Rhagfyr.

## 6 Unrhyw fater arall

Cafodd y Rheolwyr Busnes eu hatgoffa gan y Dirprwy Lywydd y bydd ymgynghoriad y Pwyllgor Busnes ar rannu swydd gydag Aelodau a grwpiau yn cau ddydd Gwener 15 Tachwedd.

Cafodd y Rheolwyr Busnes eraill eu gwahodd gan y Trefnydd i ystyried cyd-gyflwyno'r cynnig ar gyfer y ddadl ar Holodomor a gynhelir yn amser y Llywodraeth ar 19 Tachwedd.